

**Y CYNLLUN
GWELLA
CYFRWNG
CYMRAEG**

**DYDD MERCHER 13EG O FAWRTH 2019
ELERI JENKINS**

NOD Y WERS HEDDIW ...

- Chwilio am wallau.
- Cyflwyno'r testun : yr AMODOL a'r AMHERSONOL
- Trafod pwysigrwydd cywirdeb ar lafar .
- Ymwelwyr!

**YR
AMSER
AMODOL**

PA BRYD MAE ANGEN DEFNYDDIO'R AMODOL?

...er mwyn trafod beth **fyddai**'n digwydd
pe bai rhywbeth arall yn digwydd.
Mae'n **amodol** ar neu'n *dibynnu* ar
rhywbeth arall yn digwydd.

PRYD FYDD **ECH** CHI'N DEFNYDDIO'R AMODOL?

rhai enghreifftiau ...

- mewn llythyr cais am swydd athro / athrawes
 - dweud beth **fasech** chi'n ei wneud pe **tasech** chi'n cael eich penodi
- mewn gwersi gwyddoniaeth (neu unrhyw bwnc)
 - damcaniaethu canlyniad arbrawf
- wrth osod nod y wers
 - beth **hoffech** chi i'r plant ei wneud
- wrth restru rheolau'r dosbarth

Yr Amser Amodol

Dyma'r terfyniadau er mwyn ffurfio'r amodol :

- wn (i)
- et (ti)
- ai (e)
- ai (hi)
- en (ni)
- ech (chi)
- en (nhw)

CREU BRAWDDEG...

Wrth greu brawddeg gyda'r ferf amodol, mae'n amlwg fod angen dwy ran i'r frawddeg. Mae'n holl bwysig fod y ferf yn y ddwy ran yn cyd-fynd â'i gilydd e.e.

Pe baw^{wn} i'n gyfoethog, mi bryn^{wn} i blasdy.

Pe bai Rhys yn adolygu, bydd^{ai} n llwyddo.



SUT I DDEFNYDDIO'R AMODOL MEWN BRAWDDEG...

Wrth greu brawddeg gyda'r amodol mae'n bwysig cael berf amodol yn ail ran y frawddeg e.e.

Berfau amodol yn cyfateb i'w gilydd

Pe bawn i'n ennill y loteri byddwn i'n mynd ar wyliau o amgylch y byd.

Pe bawn i'n ennill y loteri
baswn i'n ymddeol.



BOD YN Y DYFODOL

byddwn i
byddet ti
byddai e
byddai hi
bydden ni
byddech chi
bydden nhw

byddai Siôn
byddai'r plant

pe bawn i
pe baet ti
pe bai e
pe bai hi
pe baen ni
pe baech chi
pe baen nhw

pe bai Siôn
pe bai'r plant

e.e. Byddwn i'n hoffi prynu car cyflym pe bawn i'n gyfoethog.

Byddwn i'n mynd i'r traeth pe bai'r tywydd yn boethach.

YMARFER :

Beth fyddai'r deg peth cyntaf y byddech chi'n wneud **pe** baech chi'n ennill y loteri?

e.e. Pe bawn i'n ennill y loteri, byddwn i'n.....



OND RHAID BOD YN OFALUS...

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng....

Bydda i

Byddai

Byddwn

Bydden

Rhaid bod yn ofalus!!

Bydda i = *I will*

Byddwn ni = *We will*

Byddwn i = *I would*

Bydden ni = *We would*

Byddai = *He would / she would / it would*

Ffurfiau Bod

Dyfodol	Amodol
Bydda i	Byddwn i
Byddi di	Byddet ti
Bydd e	Byddai e
Bydd hi	Byddai e
Byddwn ni	Bydden ni (<i>byddem ni</i>)
Byddwch chi	Byddech chi
Byddan nhw	Bydden nhw

GELLIR DEFNYDDIO BERFAU ERAILL I GYFLEU'R AMODOL.

dylwn i
dylet ti
dylai e
dylai hi
dylen ni
dylech chi
dylen nhw

dylai Siôn
dylai'r plant

e.e. Dylwn i adolygu heno gan fod arholiad gennyf yfory.

Gallu:

Mae gallu'n dilyn
yr un patrwm.

gallwn i
gallet ti
gallai e
gallai hi
gallen ni
gallech chi
gallen nhw

gallai Siôn
gallai'r plant

e.e. Gallwn i chwarae pe bai esgidiau addas gen i.

Hoffi:

Mae hoffi hefyd yn
dilyn yr un patrwm.

hoffwn i
hoffet ti
hoffai e
hoffai hi
hoffen ni
hoffech chi
hoffen nhw

hoffai Siôn
hoffai'r plant

*e.e. Hoffwn i lwyddo yn yr arholiad,
felly mae'n rhaid i mi adolygu.*

Rhai Rheolau:

- Does dim yn/'n yn dilyn y berfau
e.e. gallwn i fynd, dylwn i weithio
- Mae treigladd **meddal** ar ôl y berfau *e.e.*
*gallai hi **dd**weud, dylen ni **g**ofio*
- Mae'r ferf yn treiglo yn y negyddol
*e.e. **Dd**ylwn i **ddim** bwyta'r gacen olaf*
- Mae'r ferf hefyd yn treiglo mewn cwestiwn
*e.e. **Dd**ylech chi **w**neud hynna?*


Os a Pe...

- Mae'r ddau air yma'n cyfateb i'r Saesneg 'if'
- O flaen berfau amodol, rhaid defnyddio'r ffurf 'Pe' ar ddechrau brawddeg
- Gallwn ddefnyddio 'Os' o flaen berfau nad ydynt yn amodol

Enghreifftiau...

'Pe bawn i'n artist mi dynnwn lun
Rhyfeddod yn machlud dros Benrhyn Llŷn.'

Berfau amodol sydd yn y frawddeg uchod



'Os llwyddaf yn fy arholiadau eleni,
byddaf yn cymhwyso fel athrawes yn yr haf'

Does dim berfau amodol yn y frawddeg uchod



Gwallau posib...

Defnyddio OS o flaen berf amodol e.e.

Os buasai yn adolygu byddai'n llwyddo.



Mae 'buasai' yn ferf amodol felly rhaid defnyddio *Pe* yn hytrach nag *Os*

Cywiriad:

Pe buasai'n adolygu byddai'n llwyddo.



YMARFER 1: LLENWCH Y BYLCHAU GYDA'R FFURFIAU CYWIR.

1. _____ i'n mynd i'r traeth _____ hi'n dywydd poeth.
2. _____ ni lanhau'r ystafell, mae hi'n fler iawn.
3. _____ gen ti feic, _____ ti'n gallu ei ddefnyddio i fynd i'r ysgol.
4. _____ chi ddarllen y llyfr, mae'n wych.
5. _____ nhw fynd yno am wyliau, dwi'n gwybod y _____ nhw wrth eu bodd gyda'r lle.
6. _____ i'n derbyn y swydd, _____ fy nghyflog yn uwch.
7. _____ disgyblion wrando'n astud bob amser er mwyn deall y gwaith.
8. _____ Guto yn gweithio, rwy'n siŵr y _____ e'n llwyddo.

YMARFER :

- Ysgrifennwch 10 cyfarwyddyd yn dangos i ddisgyblion/myfyrwyr eich dosbarth beth na ddylen nhw ei wneud yn yr ystafell ddosbarth.
e.e. Ddylech chi ddim..
- Gallwch hefyd nodi beth hoffech iddyn nhw ei wneud...



**YR
AMSER
AMHERSONOL**

YR AMHERSONOL ...

Bydd terfyniad y ferf fel arfer yn dangos y **person** a'r **amser** i ni.

Ond, bydd berfau amhersonol yn dangos yr **amser** yn unig.

Fyddan nhw ddim yn dweud wrthym pwy/beth sy'n gwneud y ferf (y goddrych).

-ir	Yr amser presennol	Cynhelir	Cynhelir cyngerdd yn y neuadd heddiw
-wyd	Yr amser gorffennol	Cynhaliwyd	Cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd neithiwr
-id	Yr amser amherffaith	Cynhelid	Cynhelid cyngerdd yn y neuadd bob nos lau

YR AMHERSONOL ...

Gallwn ychwanegu'r **goddrych** (pwy) ar ddiwedd y frawddeg trwy ychwanegu ffurf briodol 'gan ...'

Cynhaliwyd cyngerdd yn y neuadd neithiwr **gan** Gôr Meibion Llanelli.

Cynhelir cyngerdd yn y neuadd heno **ganddyn** nhw.

SYLWCH!
Dydy gwrthrych berf
amhersonol ddim yn
treiglo ...

BEIGLADAU

Trefn arferol y frawddeg Gymraeg ydy **Berf + Goddrych + Gwrthrych**, e.e.

Rhedodd y ferch y ras.

Ysgrifennodd y bardd gerdd.

Dylai'r plant gael gwersi.

Fodd bynnag, nid yw'r brawddegau sy'n cynnwys yr amhersonol yn dilyn y drefn yma. Gyda ffurfiau'r amhersonol, mae'r gwrthrych yn dilyn y ferf a'r goddrych neu'r person sy'n gyfrifol am y weithred yn dod ar ôl ffurf briodol **gan**, e.e.

Rhedwyd ras gan y ferch.

Ysgrifennwyd y gerdd gan y bardd.

Ysgrifennwyd yr englyn ganddo ef.

COFIWCH

Does dim treiglad meddal yn dilyn terfyniadau'r amhersonol, e.e.

Ysgrifennodd y bardd gerdd. > Ysgrifennwyd cerdd gan y bardd.

BERFAU DEFNYDDIOL

Dylid	Synhwyrir	Amlinellir	Gofynnir
Gwelir	Dywedir	Gellir	
Clywir	Pwysleisir	Bwriedir	
Teimlir	Awgrymir	Rhoddir	

CYWIRWCH: YSGOL NEWYDD

Neithiwr, yn Neuadd y Dre, Llangawr, cynhelir cyfarfod cyhoeddus pryd trafododd yr ysgol newydd. Dywedwyd y Cadeirydd, Mr Alwyn Jones, bod y Cyngor Sir wedi paratoi cynlluniau manwl a chroesawyd Mr Jones y pensaer, Nick Hughes, i'w hegluro.

Dangoswyd y pensaer y cynlluniau, gofynnodd sawl cwestiwn pwrpasol gan aelodau'r cyhoedd a chafodd ambell ateb boddhaol. Eglurwyd Nick Hughes na fydd yr adeiladau newydd yn gwneud niwed i'r amgylchedd nac i drafnidiaeth yr ardal. Ar ddiwedd y noson cafon nhw paned a chacen wedi'u paratoi gan y pwyllgor a phenderfynodd gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.

CYWIRWCH: YSGOL NEWYDD

Neithiwr, yn Neuadd y Dre, Llangawr, cynhelir cyfarfod cyhoeddus pryd trafododd yr ysgol newydd. Dywedwyd y Cadeirydd, Mr Alwyn Jones, bod y Cyngor Sir wedi paratoi cynlluniau manwl a chroesawyd Mr Jones y pensaer, Nick Hughes, i'w hegluro. Dangoswyd y pensaer y cynlluniau, gofynnodd sawl cwestiwn pwrpasol gan aelodau'r cyhoedd a chafodd ambell ateb boddhaol. Eglurwyd Nick Hughes na fydd yr adeiladau newydd yn gwneud niwed i'r amgylchedd nac i drafnidiaeth yr ardal. Ar ddiwedd y noson cafon nhw paned a chacen wedi'u paratoi gan y pwyllgor a phenderfynodd gynnal cyfarfod arall yn y dyfodol agos.

Defnyddio Berfau Amhersonol a Threiglo'n Gywir Mewn Cystrawenau Amhersonol.

- -ir y presennol e.e. dywedir
- -wyd y gorffennol e.e. ysgrifennwyd
- -id yr amherffaith a'r amhenodol e.e. edrychid
- -er y gorchmynnol e.e. sylwer

- Nid yw'r terfyniadau hyn yn dweud pwy sy'n gweithredu.
- Mae'r gweithredwr yn cael ei nodi ar ôl gan, e.e. Ysgrifennwyd dau lythyr gan Efa.
- Nid oes angen treiglo gwrthrych berfau amhersonol, e.e. Cyhoeddwyd dyddiad y cyfarfod nesaf.
- Mae ni neu nid yn cael eu gosod o flaen y ffurf amhersonol er mwyn cyfleu'r negyddol ac mae angen cofio treiglo'n llaes neu'n feddal, e.e. Ni lwyddwyd i orffen y gwaith mewn pryd. Ni chyhoeddir y dyddiad gan y Cadeirydd tan ddiwedd y cyfarfod.

CYWIR NEU ANGHYWIR?

Cywir

Anghywir

← Sonir yr awdur yn ei erthygl...

← Defnyddia'r plant Gymraeg graenus

← Cyhoeddwyd y gyfrol ym mis Hydref

← Dywedwyd Donaldson bod llythrennedd digidol yn hollbwysig

← Cyfeiriwyd yn feirniadol at yr adroddiad

← Awgryma'r awdur mai diffyg cyfathrebu oedd y broblem

← Cafwyd y plant anhawster gyda'r dasg

← Credir fy mod wedi datblygu fy nealltwriaeth o'r maes hwn.



The image features the Kahoot! logo, which consists of the word "Kahoot!" in a bold, white, sans-serif font. The text is set against a solid purple rectangular background. The entire logo is centered within a light gray rectangular frame. To the left of the gray frame is a dark brown vertical bar with a wavy, torn-paper-like edge. To the right of the gray frame is a thin, solid orange vertical bar.

Kahoot!



**DYNA DDIGON OHONA I
YN SIARAD!!**

PWYSIGRWYDD CYWIRDEB LLAFAR

Faint ohonoch chi sy'n dweud pethau tebyg i'r canlynol wrth ddysgu eich dosbarthiadau?

Pawb yn deall?


Tasg bwysig gyda ni heddi!

Ti 'di gorffen?

Chi'n gwybod yr ateb?

Fi moyn i chi ysgrifennu'r teitl.

Chi 'di gweithio'n arbennig o dda heddiw!



Beth sy'n bod
ar y patrymau
yma?

BETH YDY'R PATRYMAU CYWIR?

Ydy pawb yn deall?

Mae tasg bwysig gyda ni heddi!

Wyt ti 'di gorffen?

Ydych chi'n gwybod yr ateb?

Dw i'n moyn i chi ysgrifennu'r teitl.

Rydych chi 'di gweithio'n arbennig o dda heddiw!

TASG LAFAR: Rydych chi'n mynd i ymarfer siarad gan ddefnyddio patrymau llawn.

Meddylwch am wers rydych wedi ei dysgu.

- Beth oedd nod y wers?
- Beth oedd y gweithgareddau?
- Pa gwestiynau a chyfarwyddiadau ofynnoch chi i'r dosbarth?

Gweithiwch mewn grwpiau i wrando ar eich gilydd.

MPLI

Siarad gan
ddefnyddio
patrymau llawn a
chywir

**YMWELWYR
PWYSIG**

ATHRAWON CMB ABERTAWE

Y TRO NESAF...

- Dydd Mercher 3ydd o Ebrill. Ystafell 002 Y Fforwm.
- Adolygu cyffredinol: Sillafu a dyblu 'n' ac 'r'.
- E-bostiwch unrhyw beth penodol ata i.
- Cofiwch...yr aseiniad!

Dyddiad cyflwyno: Dydd Llun 18fed o Fawrth.